Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Nant Dyrys / Ynys-wen**

**Cefn Ysgol Gymraeg Ynys-wen**
**Ffordd y Clinig**
**Ynys-wen**
**Treorci**
**CF42 6ED**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

20/6/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at, the Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chylch Meithrin Nant Dyrys / Ynys-wen

| | |
|---|---|
| Math o ofal a ddarperir | Gofal dydd plant<br>Gofal dydd llawn |
| Unigolyn Cofrestredig | Helen Biggs |
| Lleoedd cofrestredig | 30 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 18/1/17 |
| Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Nac ydy. Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl/plant sy'n defnyddio'r lleoliad. Fodd bynnag, defnyddir y Gymraeg fel rhan o arferion o ddydd i ddydd. |

| | |
|---|---|
| [Llesiant]() | **Rhagorol** |
| [Gofal a Datblygiad]() | **Rhagorol** |
| [Yr Amgylchedd]() | **Rhagorol** |
| [Arweinyddiaeth a Rheolaeth]() | **Rhagorol** |

Am fwy o wybodaeth ar sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb

Mae'r plant yn hyderus iawn yn eu cyfathrebu â'i gilydd a chyda'r staff gofal. Maent yn datblygu cydberthnasau cryf ac maent yn mynegi eu barn yn agored, gan wybod y gwrandewir arnynt. Mae'r plant yn hapus ac yn gallu gwneud dewisiadau a phenderfyniadau yn annibynnol.

Mae'r staff gofal yn deall ac yn dilyn polisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, diogelwch a llesiant personol yn llawn. Maent yn gymwys, yn wybodus, yn garedig ac yn ofalgar iawn o'r plant, gan ddarparu lleoliad anogol sy'n cael ei arwain gan y plant. Mae'r staff gofal yn cynllunio ac asesu'n bwrpasol ac yn hyrwyddo ethos 'ar hyn o bryd' i sicrhau bod diddordebau a chwilfrydedd y plant yn cael eu datblygu ymhellach. Mae'r staff gofal yn dangos angerdd gwirioneddol yn eu rolau.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fesurau rhagorol ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, o dan do ac yn yr awyr agored. Maent yn sicrhau bod gan y plant fynediad at ystod eang ac ardderchog o adnoddau ac offer i feithrin eu medrau datblygiadol cyffredinol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r holl reoliadau perthnasol ac yn rhagori ar y safonau cenedlaethol gofynnol. Mae ganddynt weledigaeth gref ar gyfer y dyfodol ac yn sicrhau eu bod yn rheoli eu tîm gyda chefnogaeth effeithiol a hyfforddiant parhaus. Maent yn angerddol am sicrhau eu bod yn cynnig gofal o safon uchel iawn i'w plant. Maent wedi datblygu partneriaethau cydweithredol rhagorol ar draws y gymuned ac yn genedlaethol.

| Llesiant | Rhagorol |
| --- | --- |

Mae'r plant yn llawn cymhelliant ac yn hyderus iawn ac maent yn gwybod bod eu syniadau a'u dymuniadau yn cael eu hystyried yn llawn. Mae ganddynt gyfleoedd cyffrous ac arloesol i wneud dewisiadau a phenderfyniadau ar yr hyn sy'n effeithio arnynt ac mae eu barn a'u diddordebau'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr.

Mae'r plant yn hynod hapus ac mae ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn. Maent wedi ffurfio cydberthynasau cryf, agos gyda'u cyfoedion a'u gofalwyr. Maent yn gyfarwydd iawn ag arferion ynghyd ag ethos y lleoliad. Mae eu teimladau a'u hanghenion yn cael eu cydnabod a gwelsom rwymau cryf o anwyldeb ac ymlyniad. Er enghraifft, dywedodd plentyn, ‘Rwy'n dy garu di Bopa’, ac atebodd aelod o staff, ‘Rwy'n dy garu di hefyd’.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r oedolion yn ysgogol yn gyson ac mae'r plant yn cydweithio mewn modd brwdfrydig. Mae'r plant yn mynegi empathi a gofal tuag at ei gilydd ac yn gwrando'n ofalus ar ei gilydd, gan ymateb a chyfathrebu gyda diddordeb ac anwyldeb. Maent yn ymgysylltu'n llawn ac yn dangos parch at eraill ac at y lleoliad. Mae'r plant yn cydweithredu, yn cymryd eu tro ac yn rhannu. Enghraifft o hyn yw pan welsom y plant yn cymryd rhan mewn te-parti yn defnyddio dŵr ac amrywiaeth o fagiau te â blas. Buont yn cydweithio ac yn aros eu tro i ddefnyddio tebotau tsieni, cadi te, hidlau te a chwpanau a soseri tsieni ac yn canmol ei gilydd ar eu sgiliau o ran gwneud te o liwiau gwahanol, wrth iddynt eistedd wrth fwrdd yn sgwrsio.

Mae'r plant yn ymgolli yn eu chwarae, gan ddefnyddio iaith a datblygu eu sgiliau ar draws yr holl feysydd datblygiad trwy adnoddau pwrpasol sydd ar gael iddynt. Gwelsom ddau o'r plant yn gwisgo i fyny ac yn dweud, ‘gadewch i ni fynd at y siop trin gwallt,’ ‘a wnei di fy ngwallt?’ ‘Wyt ti eisiau cyrlwyr?’ ‘Hoffet ti weld yn y drych?’, wrth iddynt brofi ac archwilio gwrthrychau go iawn gyda gwybodaeth a gofal.

Mae pob plentyn yn brysur ac yn weithgar yn eu chwarae. Mae'r plant yn cymryd eu hamser yn y gweithgareddau o'u dewis ac maent yn cael ystod eang o adnoddau i gyfoethogi'r profiadau hynny ymhellach. Mae'r profiadau a'r cyfleoedd y maent yn eu cael yn hyrwyddo eu datblygiad cyffredinol yn llawn. Yn yr awyr agored, gwelsom y plant yn defnyddio eu dychymyg i osod pont allan o estyll, trawstiau a blociau ac addasu eu syniadau, yn y foment, yn antur.

Mae gan y plant gyfleoedd rhagorol i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth trwy gydol y sesiwn, gan eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus ac i ddatrys problemau yn effeithiol. Gwelsom y plant yn arllwys dŵr o jygiau i'w cwpanau, yn defnyddio'r toiled yn annibynnol, yn symud o ardal i ardal, dan do ac yn yr awyr agored, yn cyrchu adnoddau ac yn dewis ble i fwyta eu cinio.

## Gofal a Datblygiad — Rhagorol

Mae gan y staff gofal ddealltwriaeth gynhwysfawr o bolisïau'r lleoliad. Maent yn cael eu gweithredu'n gyson i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, diogelwch personol y plant ac i sicrhau eu llesiant. Maent i gyd yn rhagweithiol yn barhaus ac yn rheoli unrhyw risgiau yn effeithiol wrth iddynt godi. Mae'r staff gofal yn siarad yn barchus â'r plant ac yn dangos diddordeb, pleser a gofal ym mhopeth y maent yn ei wneud. Maent yn rheoli unrhyw arwydd o ymddygiad yn ofalus ac yn gyflym ac maent yn llawn dychymyg ac yn llwyddo i ddatrys sefyllfaoedd, hyd yn oed cyn iddynt ddod yn broblemau.

Mae'r staff gofal yn adnabod y plant yn arbennig o dda ac maent i gyd yn gallu rhoi enghreifftiau o sut y maent wedi datblygu ac yn deall beth yw eu hanghenion. Maent yn dangos eu bod yn wybodus am ddysgu datblygiadol unigol y plant, anghenion dysgu ychwanegol, anghenion meddygol ac unrhyw newidiadau ymddygiadol a'u bod yn gallu trin a rheoli'r cyfrifoldebau hyn mewn modd sensitif ac effeithiol. O ran arferion da, mae'r staff gofal yn sicrhau bod y plant yn cael eu hydradu a bod ganddynt fynediad parhaus at ddŵr. Maent yn gwisgo ffedogau a menig wrth helpu i drin bwyd neu newid cewynnau ac yn cynnig cefnogaeth a chysur pan fydd plant yn profi unrhyw anghysur, baglu neu gwympo. Mae'r holl staff gofal yn hyderus iawn gyda sefyllfaoedd diogelu a gallant egluro pob agwedd ar bolisi a gweithdrefnau'r lleoliad yn fanwl. Maent yn dangos dealltwriaeth drylwyr o'u dyletswydd i ddiogelu pob plentyn.

Mae'r rhyngweithio rhwng y staff a thuag at y plant bob amser yn barchus. Mae'r staff yn ymatebol yn gyson ac yn gwrando ac yn parchu barn y plant yn wirioneddol. Mae'r rhyngweithio'n gadarnhaol iawn, ac mae'r staff yn dangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Maent yn sensitif i anghenion y plant ac yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi'r rhyngweithio trwy ymatebion gofalus, iaith lafar gywir ac ymestyn ymatebion a thrafodaethau gyda chyfleoedd cyfoethog ar gyfer meddwl ar y cyd parhaus. Gwelsom y plant yn mynd at y staff i gael sicrwydd, cwtsh, agosrwydd a gwelsom fod y staff gofal yn hyderus i ymateb, yn y foment, gyda syniadau estynedig. Enghraifft o hyn yw pan oedd y plant yn arwain gweithgaredd ac wedi adeiladu pont awyr agored, gan gyflwyno arth i'r gweithgaredd. Nododd y staff gofal y cyfle a chefnogwyd y gweithgaredd gyda cherddoriaeth a chanu, lle'r oedd y plant yn canu, 'rydym yn mynd ar helfa arth'. Mae'r staff gofal yn fywiog ac yn frwdfrydig ac yn gallu defnyddio adnoddau i wella dysgu'r plant.

Mae'r staff gofal yn wybodus iawn am adnoddau a gwnaethant ddweud wrthym am drawsnewidiadau mewn chwarae, gan egluro sut y defnyddir rhannau rhydd mewn arferion dyddiol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gyfoethog o faterion amrywiaeth ac maent yn hyrwyddo hawliau'r plant yn llawn. Maent wedi ymrwymo i ddarparu ystod ardderchog o weithgareddau a chyfleoedd chwarae a dysgu ac maent yn gwbl ymwybodol o ddatblygiad unigol y plant. Mae'r staff gofal yn cynllunio'n ofalus ar gyfer y camau nesaf, ac mae gan bob plentyn ffeil taith ddysgu sy'n cynnwys llwybrau datblygu, arsylwadau, asesiadau ac adolygiadau.

## Yr Amgylchedd Rhagorol

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fesurau, polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ac effeithiol ar waith i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau'n llawn. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, yn sicr, ac wedi'i gynnal a'i gadw'n eithriadol o dda, dan do ac yn yr awyr agored. Ystyriwyd yr holl risgiau a pheryglon yn ofalus, hyd yn oed ar gyfer y gweithgareddau a gynllunnir, er enghraifft yr ardal adeiladu ddiweddar. Gwelsom ddogfennau lle mae damweiniau sy'n digwydd eto yn y lleoliad yn cael eu monitro, lle mae nifer y damweiniau ym mhob ardal yn cael eu cofnodi. Gallem weld bod nifer o ddamweiniau yn yr ardal feiciau wedi eu hadnabod a bod hyn wedi ei weithredu gyda mesurau pellach, a oedd yn cynnwys monitro'r ardal trwy leihau nifer y plant yn yr ardal a'u hannog i gerdded i lawr y ramp. Gwelsom arferion hylendid cyson, gan leihau risgiau i iechyd a diogelwch pawb. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cwblhau asesiadau risg cyffredinol a thân hynod effeithiol a chynhwysfawr sy'n cael eu hadolygu a chaiff gweithdrefnau brys eu cyfathrebu'n glir. Maent yn sicrhau bod y cymarebau staff/plant yn gywir a gyda lleoliad lle mae drysau ar agor yn barhaus, mae'r staff gofal bob amser yn sicrhau lefelau uchel o arsylwi a chyfathrebu fel mesurau diogelwch cyson.

Mae'r lleoliad yn ddiogel, yn groesawgar, yn gynnes ac mae'n cael ei gynnal a'i gadw'n rhagorol. Gall y plant gael mynediad hawdd at ddodrefn ac adnoddau o ansawdd rhagorol yr ardaloedd dan do ac yn yr awyr agored, sy'n ysgogi diddordebau a dychymyg y plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymroddedig i ddarparu adnoddau ysgogol sy'n hybu chwilfrydedd y plant. Hyrwyddir cydraddoldeb ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol ar draws y practis. Mae'r ardal dan do yn lân, yn agored, yn awyrog, wedi'i oleuo'n dda ac yn oer gan gynnig llawer o wahanol fannau chwarae. Mae'r ardal dan do wedi'i drefnu a'i gyflwyno'n ofalus, gan gynnig cyfleoedd pwrpasol ar gyfer profiadau dysgu cyfoethog, gan annog y dysgwyr chwilfrydig i archwilio. Mae'r ardal yn yr awyr agored yn ddiogel ac yn darparu ardaloedd o amgylch y lleoliad, yn enwedig ardaloedd cysgodol yn ystod tywydd poeth. Mae'r ardal yn yr awyr agored yn darparu nifer o gyfleoedd chwarae ynghyd ag ardal fwyta dan do.

Mae pryniannau diweddar yn dangos sut mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dewis adnoddau'n ofalus i gyflawni themâu sy'n rhan o'r broses gynllunio. Gwelsom ddelweddau o ardal adeiladu ddiweddar, a oedd wedi cynnwys y manylion lleiaf i ddarparu'r nifer fwyaf o brofiadau i'r plant. Mae adnoddau ar gyfer y pizzeria Eidalaidd sydd ar y gweill wedi'u prynu'n ofalus i baratoi ardal ddysgu ysgogol newydd. Mae adnoddau'r awyr agored hefyd yn cynnwys pryniannau gan wneuthurwyr awyr agored ag enw da fel sied blannu newydd, i arteffactau priodol o siopau elusen lleol, gan alluogi'r staff gofal i sicrhau'n gyson eu bod yn darparu profiadau dysgu cyfoethog i'r plant.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Rhagorol

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth arloesol a rennir gyda'r tîm cyfan. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith ac yn cael eu cadw'n gyfrinachol. Mae'r rhain yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir i'r plant a theuluoedd ac yn rhagori ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Adolygir polisïau yn flynyddol, gyda dyddiadau a llofnodion yn amlwg ar bob dogfen. Mae ffeiliau'r staff, ffeiliau'r plant, arfarniadau, pecynnau meddygol unigol, meddyginiaeth, llyfrau damweiniau a digwyddiadau i gyd yn cael eu cwblhau'n gywir. Mae'r holl systemau cofnodi eraill wedi'u cwblhau ac yn drefnus. Mae'r rhieni'n cofnodi wrth i'w plant gyrraedd a gadael y lleoliad, gyda chofrestrau dyddiol yn cael eu harddangos yn y brif fynedfa.

Mae ffeil gynllunio'r lleoliad yn gynhwysfawr ac mae ffeiliau gweithwyr allweddol yn fanwl. Maent yn dilyn cynllun cyn-ysgol iach cenedlaethol ac maent yn y broses o ddod yn lleoliad achrededig ar gyfer y dull chwilfrydedd. Mae diwylliant cryf o ddatblygiad proffesiynol parhaus ac mae'r staff gofal wedi cwblhau hyfforddiant ychwanegol fel awtistiaeth, gwaith coed a hyfforddiant rhannau rhydd ac maent i gyd ar hyn o bryd yn gweithio tuag at eu cymhwyster gwaith chwarae. Gweithredir proses hunanwerthuso effeithiol ac ystyrlon ac mae adroddiad ansawdd gofal y lleoliad yn adlewyrchu'r gwasanaeth a chroesawir a gwrandewir ar farn y staff a'r plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn hyrwyddo arferion gorau cyfredol sy'n berthnasol i'r plant yn effeithiol. Mae'r holl staff gofal, sy'n cael eu hadnabod yn annwyl fel 'Bopas', yn hyrwyddo'r Gymraeg, ac mae hyd yn oed y rhai sydd â llai o hyder yn dangos meistrolaeth dda iawn o'r iaith sy'n rhan o'r ethos. Mae'r staff gofal yn disgrifio'r lleoliad a'r tîm fel teulu ac yn teimlo bod y rheolwyr yn eu cefnogi'n fawr iawn, gydag un aelod yn dweud, 'does neb yn well na neb, rydyn ni i gyd yn ymuno i wneud unrhyw beth sydd angen ei wneud... mae'n lle mor hyfryd ac rydyn ni i gyd mor hapus.' Mae'r gwaith cynllunio a pharatoi yn cael eu gwella ymhellach gyda'r staff gofal yn gweithio oriau ychwanegol pan fydd y plant wedi gadael, i gynllunio a chydweithio ar arsylwadau'r plant a ffeiliau personol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr holl systemau cyfathrebu ac ymgysylltu â'r rhieni yn arloesol ac yn gwbl gynhwysol ac mae ganddynt gysylltiadau cryf iawn ag ystod eang o weithwyr proffesiynol ar draws y gymuned leol ac yn ehangach. Gwnaethant ddweud wrthym am y cydweithio gyda'r ysgol drws nesaf, y rhieni, lleoliadau lleol a sefydliad blynyddoedd cynnar cenedlaethol, gydag ymweliadau'n cael eu cynnal â'r lleoliad i arsylwi a dysgu mwy am arfer y lleoliad. Dywedodd y rhieni wrthym eu bod yn fodlon ar y gofal y mae eu plant yn ei dderbyn a bod eu plant yn hapus.  Mae hwn yn wasanaeth sydd wedi ymrwymo i wella gyda llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arferion ac arloesedd sy'n arwain y sector.

## Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

Dim argymhellion.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y gallwn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achos o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Disgwyliwn i'r darparwr gymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|---|---|---|
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

| Sgoriau | Ystyr y sgoriau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Mae'r rhain yn wasanaethau sy'n ymroddedig i welliannau parhaus, ac sydd â nifer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arferion ac arloesi blaenllaw o fewn y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel, ac maent yn gallu dangos eu bod yn gwneud cyfraniad cryf i wella llesiant plant. |
| **Da** | Mae'r rhain yn wasanaethau sydd â llawer o gryfderau, a dim meysydd pwysig sydd angen gwelliant arwyddocaol. Maent yn rhagori ar ofynion sylfaenol yn gyson, yn darparu canlyniadau cadarnhaol i blant, ac yn hyrwyddo eu llesiant mewn modd gweithredol. |
| **Digonol** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae eu cryfderau'n gorbwyso eu meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni gofynion sylfaenol, ond mae angen gwelliannau i hyrwyddo llesiant ac i wella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau, a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n cael effaith negyddol ar lesiant y plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 24/08/2022